# Llanw Llŷn

**Rhif 269** **MEDI 2000** **35c**

## Helpu'r Llanw

**Cynhelir cyfarfod yn Y Gegin, Neuadd Mynytho ar nos Lun, Medi 25 am 8 o'r gloch i drafod syniadau ar gyfer Y Llanw dros y flwyddyn i ddod.**

**Cyfle i ddweud eich barn — croeso i bawb**

## www.penllyn.com/llanw

**Mae Llanw Llŷn ar y We fyd eang. Diolch i Simon Jones, Cape1 Pencraig, Llangwnadl am wneud y gwaith o roi'r tudalennau i fyny. Os ewch chi ar y We i'r cyfeiriad www.penllyn.com/llanw mi welwch ddetholiad o rifyn Gorffennaf a Mehefin. Cychwyn ydy hyn a'r gobaith rŵan yw y gellir darganfod ffyrdd o wella'r diwyg a chadw'r tudalennau'n gyfredol. Mae tîm Llanw Llŷn yn awyddus iawn i glywed gan unrhyw gyfrifiadurwr gwirfoddol sy'n deall y pethau yma. Cysylltwch ag un o'r golygyddion neu anfonwch e-bost.**

Mae Simon Jones hefyd yn awyddus i glywed oddi wrth unrhyw un ym Mhen Llŷn, yn gymdeithas neu fusnes, sydd am le ar y We. Ar hyn o bryd os rhowch chi rywbeth fel 'Nefyn' i mewn yn y chwilotydd yr hyn ddaw i fyny yw bythynnod gwyliau yn unig. Nod Simon ydy cael adlewyrchiad teg o Ben Llŷn gynhenid Gymreig a Chymraeg ar y We, fel bod pobl yn dod yn fwyfwy ymwybodol o'n diwylliant unigryw. Meddai Simon, 'Fydda i ddim ond yn rhoi tudalennau dwyieithog a Chymraeg i fyny o dan Penllyn.com ac, os bydd yna ddigon o gyfeiriadau at bentrefi Llŷn yn y dogfennau, mi ddylai Chwilotyddion fel Alta Vista a Yahoo adnabod y safle yma.' Yr hyn mae'n olygu yw y bydd unrhyw un ar draws y byd sy'n chwilio am gyfeiriadau at Lŷn, yn cael eu cyfeirio at penllyn.com.

## Sioe Tudweiliog 2000



*Dau fugail ifanc a gafodd gyn lwyddiant yn Sioe Tudweiliog: Mathew Penri o Laniestyn a Car-on Rhys Roberts o Rydyclafdy.*

(Llun: Dewi lvY?l)

Daeth cannoedd o bob cwr o Gymru i Bwllheli ddiwedd Gorffennaf i ddathlu 75 Mlwyddiant Plaid Cymru ac i orymdeithio tu ôl i Seindorf Arian Llanrug trwy'r dref i'r Maes, ble cynhaliwyd rali. Dadorchuddiwyd plac gan Dafydd Wigley ar adeilad y 'temprans' lle cynhaliwyd cyfarfod sefydlu'r Blaid 75 mlynedd yn ôl.

Traddododd Dafydd Wigley ei araith olaf fel llywydd y Blaid, 'Gyda diolch i weledigaeth Saunders Lewis a'i gyfeillion 75 mlynedd yn ôl, mae gennym hanes balch fel Plaid. Rydym yn edrych ymlaen i'w weledgiaeth o hunanlywodraeth o fewn Ewrop,' meddai. Daeth y dathliadau i ben gyda chinio a chân gan Dafydd Iwan yng Ngwesty'r Nanhoron, Nefyn.




***Dafydd Wigley yn traddodi ei araith olaf fel Llywydd Plaid Cymru yng nghyfarjod** dathlu **'r pen-blwydd ym Mhwllheli. (Llun: Nigel Hughes)***

## fyw yn Llŷn

Gydag anfodlonrwydd ynghylch prisiau olew yn cynyddu ar ôl protestio cryf tros y môr yn Ffrainc ac ar hyd a lled Cymru, beth yw ymateb pobl Llŷn? Mae'r pris olew ar y cyfandir yn dipyn rhatach na'r pris rydan ni'n ei dalu yma ond ychydig iawn o brotestio fu yma hyd yn hyn.

Mae Alwyn Williams, sy'n rhedeg busnes loriau cario o Forfa Nefyn yn credu'n gryf y dylai pobl yr ardaloedd gwledig weithio efo'i gilydd i ddwyn pwysau o ddifri am help i gefn gwlad. Dyna hefyd oedd byrdwn Undeb Amaethwyr Cymru sydd mewn trafodaethau gyda'r 'Road Haulage Association' ar y ffordd orau ymlaen.

Does dim dwywaith nad ydy'r prisiau uchel yma am olew yn taro cefn gwlad fel Llŷn yn drymach nag unrhyw le arall. Ond onid oes rhaid cadw prisiau olew yn uchel i ddiogelu'r amgylchedd? Mae problem yr haenen ôson yn teneuo yn bygwth amgylchedd y byd. Beth yw eich barn chi? Anfonwch air atom yn y Llanw.

# Edrych nôl, Camu 'Mlaen

Daeth cannoedd o bob cwr o Gymru i Bwllheli ddiwedd Gorffennaf i ddathlu 75 Mlwyddiant Plaid Cymru ac i orymdeithio tu ôl i Seindorf Arian Llanrug trwy'r dref i'r Maes, ble cynhaliwyd rali. Dadorchuddiwyd plac gan Dafydd Wigley ar adeilad y 'temprans' lle cynhaliwyd cyfarfod sefydlu'r Blaid 75 mlynedd yn ôl.

Traddododd Dafydd Wigley ei araith olaf fel llywydd y Blaid, 'Gyda diolch i weledigaeth Saunders Lewis a'i gyfeillion 75 mlynedd yn ôl, mae gennym hanes balch fel Plaid. Rydym yn edrych ymlaen i'w weledgiaeth o hunanlywodraeth o fewn Ewrop,' meddai. Daeth y dathliadau i ben gyda chinio a chân gan Dafydd Iwan yng Ngwesty'r Nanhoron, Nefyn.




*Dafydd Wigley yn traddodi ei araith olaf fel Llywydd Plaid Cymru yng nghyfarfod dathlu 'r pen-blwydd ym Mhwllheli, (Llun: Nigel Hughes)*

# Talu'r Pris am fyw yn Llŷn

Gydag anfodlonrwydd ynghylch prisiau olew yn cynyddu ar ôl protestio cryf tros y môr yn Ffrainc ac ar hyd a lled Cymru, beth yw ymateb pobl Llŷn? Mae'r pris olew ar y cyfandir yn dipyn rhatach na'r pris rydan ni'n ei dalu yma ond ychydig iawn o brotestio fu yma hyd yn hyn.

Mae Alwyn Williams, sy'n rhedeg busnes loriïau cario o Forfa Nefyn yn credu'n gryf y dylai pobl yr ardlaloedd gwledig weithio efo'i gilydd i ddwyn pwysau o ddifri am help i gefn gwlad. Dyna hefyd oedd byrdwn Undeb Amaethwyr Cymru sydd mewn trafodaethau gyda'r 'Road Haulage Association' ar y ffordd orau ymlaen.

Does dim dwywaith nad ydy'r prisiau uchel yma am olew yn taro cefn gwlad fel Llŷn yn drymach nag unrhyw le arall. Ond onid oes rhaid cadw prisiau olew yn uchel i ddiogelu'r amgylchedd? Mae problem yr haenen ôson yn teneuo yn bygwth amgylchedd y byd. Beth yw eich barn chi? Anfonwch air atom yn y Llanw.